



## Sylwadau Dyfodol i'r Iaith ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion

### I sylw Grŵp Adolygu Cymraeg i Oedolion

---

#### Dyfodol i'r Iaith

Mae Dyfodol i'r Iaith yn gorff newydd sy'n ymgyrchu dros roi lle blaenllaw i'r Gymraeg ym meysydd cynllunio Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys ceisio rhoi lle canolog i'r iaith wrth gynllunio datblygiadau economaidd, tai, cynaliadwyedd ac addysg ymysg meysydd eraill.

---

Tachwedd 2012

DYFODOL I'R IAITH

Cysyllter â

Heini Gruffudd (Cadeirydd)

2 Lôn Rhianfa, Ffynhonne, Abertawe SA1 6DJ

01792 455410

heini@gruffudd.org

## Cynnwys

<b>Crynodeb o'r argymhellion</b>	<b>3</b>
<b>Rhagymadrodd</b>	<b>3</b>
<b>Diben y ddarpariaeth</b>	<b>4</b>
<b>Diffyg Dilyniant</b>	<b>5</b>
<b>Dwyster a Chyfnod y Dysgu</b>	<b>6</b>
<b>Ariannu</b>	<b>7</b>
<b>Achredu neu beidio</b>	<b>8</b>
<b>Canolfannau Cymraeg</b>	<b>8</b>
<b>Adnoddau</b>	<b>9</b>
<b>Trefn newydd</b>	<b>10</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>10</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>12</b>

## Crynodeb o'r Argymhellion

Mae angen sefydlu Sefydliad Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion i arwain y maes.

Mae angen creu strwythur addas i ddatblygu corff o athrawon proffesiynol.

Mae angen cynyddu dwyster y dysgu.

Mae angen cynnig rhaglen ddysgu hyd at 1,200 o oriau i sicrhau rhuglder.

Mae angen hyrwyddo rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg.

Mae angen targedu rhieni sydd am ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref a gweithwyr sy'n delio â'r cyhoedd.

Mae angen cynllun eang o ryddhau dysgwyr o'u gwaith er mwyn dysgu'r iaith.

Mae angen dyblu'r gwariant ar Gymraeg i Oedolion.

Mae angen osgoi achredu crynodol i ddysgwyr lle mae hynny'n amherthnasol.

## Rhagymadrodd

Mae Cymraeg i Oedolion wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru, gyda chwe Chanolfan yn darparu'r gwasanaeth, sy'n cynnwys ymchwil, adnoddau, addysgu a gweinyddu.

Mae'r drefn gymharol newydd hon yn fwy cydlynus na'r hyn a welwyd ar hyd y blynyddoedd, ac eto mae angen gofyn rhai cwestiynau sylfaenol am y ddarpariaeth.

Yn ôl un adroddiad yn 2003, tua 100 o ddysgwyr y flwyddyn oedd yn dod yn rhugl, er bod rhyw 18,000 yn y system Cymraeg i Oedolion bob blwyddyn.<sup>1</sup> Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod y nifer hwn yn uwch heddiw. Mae hyn yn hawlio rhoi sylw o ddifri i ddiwygio'r ddarpariaeth.

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cynnig yn bennaf gyrsiau 'dwys' (dwy sesiwn yr wythnos) neu 'ddarnynnol' (unwaith yr wythnos), gyda rhai cyrsiau o natur wahanol. Mae peth darpariaeth wedi'i hanelu at y gweithle tra mae peth yn anelu at rieni.

Nid yw'r ddarpariaeth bresennol wedi llwyddo i lywio dosbarthiadau i ffwrdd o'r math o ddosbarth sy'n arferol i rai sy'n mynychu dosbarthiadau hamdden, ac fel y gwelir yn nes ymlaen, mae canlyniadau'r ddarpariaeth yn siomedig.

## Diben y ddarpariaeth

Ar hyd y blynyddoedd ni roddwyd sylw digonol i ddiben y ddarpariaeth. Ein barn ni yw y dylai'r ddarpariaeth fod yn rhan annatod o gynllunio ieithyddol cyffredinol yng Nghymru, fel bod anghenion rhieni a theuluoedd, y cyhoedd yn gyffredinol, a gweithwyr mewn sefydliadau yn cael eu diwallu'n llawn.

Mae sawl gwaith ymchwil<sup>ii</sup> wedi dangos bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dysgu am resymau cymathu â'r gymdeithas Gymraeg, sef am gymryd rhan lawn yn y gymdeithas yng Nghymru neu am ddefnyddio'r Gymraeg yn y teulu. Mae dysgu am resymau cyflogaeth yn brif reswm canran llai o ddysgwyr.

Yn sgil hyn mae angen ystyried sut y gellir gwreiddio'r dysgu yn y gymuned fel bod dysgwyr yn gallu dysgu mewn amgylchiadau sy'n hyrwyddo defnyddio'r sgiliau a enillir, a chael manteision defnydd all-ddosbarth yn sgil hyn. Gall hyn olygu bod angen ystyried sut i dargedu dysgwyr sy'n fwyaf tebygol o allu elwa ar y dosbarthiadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg yn helaethach yn eu cymuned ac yn eu teuluoedd.

Mae angen rhoi blaenoriaeth i rieni sydd am ddysgu'r Gymraeg gyda'r nod o ddefnyddio'r iaith yn eu teuluoedd. Derbyniwyd yn gyffredinol bod cynyddu'r nifer o deuluoedd sy'n defnyddio'r iaith yn gonglfaen unrhyw ymgais i adfer iaith neu i wrthdroi shift iaith.<sup>iii</sup> Mae rhai cyrsiau ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer y grŵp hwn, ond mae angen ystyried sut y gellir targedu'r grŵp hwn orau.

Ystyriaeth arall yw sut y gellir rhoi'r gwasanaeth gorau i rai sy'n dysgu'r iaith ar gyfer eu gwaith. Ni roddwyd digon o sylw ar lefel genedlaethol i ba swyddi y dylid eu hystyried yn rhai allweddol o ran defnyddio'r Gymraeg. Mae angen sicrhau bod cyflenwad digonol o arweinyddion cylchoedd meithrin, e.e., ar gael sy'n hyddysg mewn Cymraeg llafar, a dylai'r ddarpariaeth dargedu'r rhain.

Mae angen rhoi blaenoriaeth i swyddi sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg ar lafar, wyneb yn wyneb â'r cyhoedd. Gall y swyddi hyn fod yn rhai cyhoeddus neu mewn sefydliadau preifat.

Gallai'r gwasanaeth Cymraeg i Oedolion elwa o fodel Cyngor Gwynedd o gynnal gweithlu Cymraeg. Yn y cyswllt hwn mae angen i Gynlluniau Iaith cyrff cyhoeddus ddatgan yn glir sut y cefnogir dysgwyr o fewn y sefydliad, gyda'r nod o greu gweithlu sydd â'r sgiliau ieithyddol priodol er mwyn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg diofyn i'r cyhoedd. Dylai Cynlluniau Iaith o'r fath flaenoriaethu swyddi lle y byddai'n hanfodol siarad Cymraeg, e.e. therapyddion iaith, gwasanaeth lleferydd iaith, gofalwyr ac ati. Yna gellid nodi swyddi lle y byddai'r Gymraeg yn ddymunol. Mae angen mawr i wasanaethau fel y GIG ac awdurdodau lleol ddatblygu polisiau o'r fath er mwyn gwasanaethu'r rhai yn eu gofal a sefydliadau addysg, ac mae angen i ddarpariaeth CiO fod yn ganolog yn y cynllunio hwn.

Mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg mae lle i ofni bod newydd-ddyfodiaid yn gallu trawsnewid natur ieithyddol. Fel y mae rhai gwledydd yn darparu hyfforddiant iaith i newydd-ddyfodiaid, ac yn sicrhau bod hyn yn ddisgwyliad gan newydd-ddyfodiaid, dylai disgwyliad tebyg a darpariaeth ddigonol fod yng Nghymru i ddiogelu natur ieithyddol ardaloedd Cymraeg. Mae Denmarc yn cynnig enghraifft o ddarpariaeth o'r fath. Yn 2011 rhoddwyd hyfforddiant mewn Daneg i 44,150 o newydd-ddyfodiaid.<sup>iv</sup>

Yng Ngwlad y Basgiaid cafwyd polisi o dargedu gweithwyr allweddol, gan gynnwys addysgu athrawon yn y cyfnod ar ôl cwmpwr Franco fel bod ysgolion Basgeg yn gallu cael nifer digonol o athrawon.<sup>v</sup> Yna cafwyd rhaglen addysgu arbennig yn targedu gweision sifil.

Yn wyneb yr uchod mae angen cael syniad clir am ddiben y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, a sut y gellir trefnu'r ddarpariaeth i ateb y gofyn yn y modd mwyaf effeithiol. Mae'n debygol y canfyddir, fel y gwelwyd gan rai eisoes<sup>vi</sup>, nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn effeithiol, a'i bod mewn sawl ffordd yn cwmpo'n brin iawn o'r gobeithion sydd gan ddysgwyr wrth gychwyn ar eu llwybrau dysgu.


## Diffyg Dilyniant

Mae'r diffyg dilyniant a welir rhwng y blynyddoedd dysgu yn nodwedd amlwg o'r ddarpariaeth bresennol. Er bod peth gwelliant, mae'n debyg, wedi bod o ran dilyniant mewn blynyddoedd diweddar, mae'r diffyg dilyniant yn drawiadol:

LEFEL	Dan 16	16-19	20-29	30-39	40-49	50-59	60 +	Oedran Anhysbys	Pawb
<b>Mynediad/ cyn Mynediad</b>	10	150	1,280	1,890	1,815	1,330	1,370	130	7,975
<b>Lefel NVQ 1 neu gyfwerth</b>	5	70	780	1,205	1,105	935	1,225	55	5,385
<b>Lefel NVQ 2 neu gyfwerth</b>	*	25	280	345	395	320	500	15	1,885
<b>Lefel NVQ 3 neu gyfwerth</b>	*	5	80	160	235	235	410	15	1,150
<b>Tystysgrif AU / Lefel NVQ neu NQF 4</b>	*	*	25	40	65	60	155	10	360
<b>Ddim yn Gwybod</b>	*	*	*	*	*	*	*	*	5
<b>Arbenigol</b>	*	35	275	270	230	210	285	160	1,470
<b>PAWB:</b>	15	285	2,720	3,915	3,855	3,095	3,950	385	18,220

*Oedran dysgwyr Cymraeg i Oedolion 2008/09 yn ôl lefel, yn ôl ffigurau (dros dro) HESA a LLWR<sup>vii</sup>*

Darlunnir y diffyg dilyniant hwn yn glir fesul oedran, wrth roi'r wybodaeth ar ffurf graff. Y canfyddiad amlwg yw mai'r grŵp gwannaf o ran dilyniant yw rhai 20-29 oed, sef y rhai mwyaf tebygol o fod mewn sefyllfa i newid iaith y cartref.<sup>viii</sup> Y grŵp sy'n para orau, er bod gostyngiad mawr hefyd ymysg y rhain, yw'r rhai 60+ oed, sy'n fwyaf tebygol o fod ag amser rhydd ar eu dwylo.



### *Gostyngiad yn nifer y dysgwyr, yn ôl oed a lefel ddysgu*

Mae'n debygol bod ffactorau penodol ar waith sy'n gyfrifol am y diffyg dilyniant cyffredinol hyn. Gall y rhain gynnwys siom yn sgil arafwch dysgu, syniad o fethiant ar ôl blwyddyn gychwynnol, a diffyg cyfle i fynychu dosbarthiadau ymysg eraill. Mae'n amlwg bod angen datrys y diffyg dilyniant hwn os yw'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion am fod yn fwy llwyddiannus nag y mae ar hyn o bryd.

### **Dwyster a Chyfnod y Dysgu**

Gall y syniad o ddiffyg llwyddiant ddeillio o'r nifer cymharol fach o oriau dysgu yr wythnos a gynigir i ddysgwyr. Ar hyn o bryd, fel yr awgrymwyd, cynigir yn gyffredinol gysiau 2 sesiwn x 2 awr yr wythnos neu 1 sesiwn x 2 awr. Mewn blwyddyn gellir disgwyl hyd at 30 o wythnosau dysgu, sy'n golygu y gall dysgwr dderbyn rhwng 60 a 120 o oriau dysgu mewn blwyddyn.

Pan gychwynnwyd addysgu Cymraeg i Oedolion gan ddefnyddio'r dull Wlpan a gyflwynwyd gan Chris Rees, byddid yn cynnig 5 sesiwn x 2 awr yr wythnos a allai olygu bod dysgwr yn derbyn 100 o oriau mewn tymor dysgu a rhwng 200 a 300 o oriau y flwyddyn. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, gall dysgwyr wynebu derbyn rhwng 240 a 480 o oriau dros bedair blynedd. Ystyriwn fod yr oriau dysgu hyn yn bell o fod yn ddigonol ar gyfer dysgu iaith yn effeithiol.

Mae cymariaethau rhyngwladol yn awgrymu bod angen oriau mwy dwys a hwy er mwyn meistrolï iaith.

Yng Ngwlad y Basgiaid mae 73% o'r rhai sy'n dysgu Basgeg yn astudio am fwy na 6 awr yr wythnos, a 65% ohonynt am fwy na 10 awr yr wythnos.

Mae'r angen am oriau digonol ar gyfer dysgu iaith wedi'i nodi yn Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin Cyngor Ewrop. Yng Ngwlad y Basgiaid derbynnir bod angen hyd at 1,500 – 1,800 o oriau er mwyn

meistrolí'r iaith.<sup>ix</sup> Gellir dadlau bod y Fasgeg yn iaith dra gwahanol í'r Sbaeneg gan nad yw'n perthyn í'r un teulu ieithyddol, a bod angen oriau sylweddol í'w meistrolí. Mae Cynllun ESOL Prifysgol Caergrawnt yn nodi bod angen tua 1,000 – 1,200 o oriau i gyrraedd rhuglder.<sup>x</sup> Nid yw'r 300 o oriau a gynigir dros bedair blynedd i nifer helaeth o ddysgwyr yng Nghymru'n dod yn agos at gynnig sgiliau cyflawn yn yr iaith.<sup>xi</sup>

Os caiff cyrsiau dwys flaenoriaeth dros y gweddill, bydd angen addasu'r ddarpariaeth gan roi sylw i dargedu dysgwyr allweddol. Yn y cyswllt hwn mae'n bwysig ystyried dulliau newydd, e.e. dulliau sy'n cyfuno dysgu a chyswllt ar-lein, sy'n caniatáu oriau cyswllt helaethach í'r dysgwyr.

## Ariannu

Bernir y gwerir tua £10,000,000 - £12,000,000 ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Mae hyn yn cyfateb i ryw £650 y dysgwyr. Ar un olwg mae hyn yn wariant sylweddol, ac mae'n cynnal peirianwaith effeithiol o drefnu dosbarthiadau ledled y wlad, ac o gynhyrchu adnoddau perthnasol, yn ogystal â chyfrannu ychydig at weithgareddau allgyrsiol.

Mae cymariaethau rhyngwladol, fodd bynnag, yn awgrymu bod yr arian hwn yn annigonol. Yng Ngwlad y Basgiaid yn 2010 roedd cyllideb Habe (Helduen Alfabetatze eta Berreskalduntzerako Erakundea), sef Adran Ddiwylliant y llywodraeth sy'n gyfrifol am drefnu addysgu'r Fasgeg i oedolion, ac sy'n cyfrannu at gynnal rhyw 120 o Ganolfannau Basgeg, yn 44,984,000€ (tua £40 miliwn), rhyw dair gwaith mwy na Chymru. O'r cyllid hwn, ar ôl talu am gostau canolog, roedd 34,164,000€ yn cael ei roi'n grantiau i addysgu Basgeg i Oedolion.<sup>xii</sup> Mae o gwmpas 40,000 o oedolion yn mynychu dosbarthiadau bob blwyddyn, ac mae'r gost y dysgwr o gwmpas £1,000.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwario tua £250miliwn y flwyddyn ar addysgu'r Saesneg yn ail iaith (ESOL).<sup>xiii</sup> Mae'r arian hwn yn mynd at addysgu 187,000 o ddysgwyr, sef cyfartaledd o £1,336 yr un. 24% y cant o'r rhain sy'n talu 50% o'r ffi hyfforddi yn llawn.

Un ystyriaeth allweddol yw sut mae ariannu cyrsiau dwys, a sut mae defnyddio arian i dargedu grwpiau penodol o ddysgwyr. Bydd angen cyfuniad o strategaethau gan gynnwys rhyddhau dysgwyr o'u gwaith, annog adrannau o lywodraeth ganol a lleol i ryddhau gweithwyr am gyfnod, a rhoi manteision i gwmnïau preifat am ganiatáu i weithwyr gael eu rhyddhau.

Er mwyn i ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion Cymru allu cynnig rhaglenni llwyddiannus, mae'n debygol y bydd angen dyblu'r arian a roddir í'r maes, a barnu yn ôl profiad gwledydd eraill.

## Achredu neu beidio

Bu peth trafodaeth yn y wasg Gymraeg am rinweddau achredu dosbarthiadau dysgwyr y Gymraeg. Teimlad llawer yw bod y system achredu yn mynd yn groes i ddymuniaidau dysgwyr yn gyffredinol, yn enwedig y rhai sy'n dysgu'r iaith am resymau cymathu.

Mae'r system achredu'n golygu bod angen cyfundrefnu'n drylwyr, ac mae hyn yn mynd ag adnoddau sylweddol y Canolfannau Cymraeg i Oedolion.

Lle y mae angen achredu, mae'n dda bod y gyfundrefn yng Nghymru'n cynnig system sy'n cyfateb i'r drefn sy'n bodoli ar lefel Ewropeaidd.

I'r dysgwyr nad oes arnynt angen achredu, mae'n fwy priodol bod tiwtoriaid yn llunio barn am allu myfyrwyr yn ystod y sesiynau dysgu ac yn cynnig adborth, fel bod y broses asesu'n un ffurfiannol yn hytrach na chrynodol. Byddai hyn yn arbed llawer o'r anawsterau sy'n gallu codi lle nad yw'r system achredu neu asesu'n hyrwyddo bwriad y dysgwyr wrth ddysgu.

Mae'r strwythur addysgu ieithoedd Ewropeaidd wedi cwrdd â llwyddiant amrywiol. Nid yw traean o'r rhai sy'n cychwyn ar gyrsiau achredu yn Nenmarc yn pasio yr un modiwl, ac mae llai nag un o bob pump yn pasio'r prawf terfynol ar ôl tair blynedd, er y gall y bai am hyn fod yn ddiffyg dysgu dwys, fel yng Nghymru, yn ogystal â gwrthwynebiad i system achredu.

## Canolfannau Cymraeg

Mewn gwaith ymchwil diweddar gwelwyd bod tri ffactor yn cyfrannu mwy na'r gweddill tuag at roi cyfleoedd allgyrsiol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg.<sup>xiv</sup> Y tri hyn oedd

- i. Byw mewn ardal gymharol Gymraeg
- ii. Byw mewn teulu lle mae rhai'n siarad yr iaith
- iii. Gallu mynychu Canolfan Gymraeg

Roedd darparu digwyddiadau Cymraeg cyson yn ffactor arall. Ond o blith y tri uchod, yr unig un y mae modd gwneud rhywbeth yn ei gylch yw Canolfannau Cymraeg. Gwelwyd bod dysgwyr a oedd yn mynychu dosbarthiadau mewn Canolfan Gymraeg yn fwy parod i fynychu digwyddiadau yno, ac yn gallu manteisio ar gyfleusterau eraill yno, e.e. mynychu sesiynau siarad, coffe a siop Gymraeg.

Lle byddai dysgwyr yn gyffredinol yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth, lleiafrif oedd yn fodlon mentro ar ddefnyddio'u gwybodaeth y tu allan iddo.

Ychydig yw'r modelau o Ganolfannau Cymraeg. Mae Tŷ Tawe yn Abertawe'n ganolfan gymunedol Gymraeg sy'n darparu siop Gymraeg, neuadd ddigwyddiadau, ystafelloedd dysgu, ac mae nifer o gymdeithasau Cymraeg yn cwrdd yno. Ceir yno hefyd ddigwyddiadau penodol i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Mae Canolfan Merthyr wedi datblygu i gynnwys swyddfeydd gwahanol fudiadau, gan



gynnwys yr Urdd a Mudiad Meithrin, ac mae yno siop Gymraeg, coffe, ystafelloedd dysgu a meithrinfa. Newydd ddechrau mae Saith Seren yn Wrecsam lle mae bar cymdeithasol yn cynnig adloniant, a bydd yno ystafelloedd dysgu.

Rydym yn argymhell bod Canolfannau Cymraeg yn cael eu sefydlu ledled ardaloedd Seisnigedig Cymru, ond hefyd mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg lle mae'r iaith o dan fygythiad.

Yng Ngwlad y Basgiaid mae Canolfannau Basgeg yn ganolog i drefnau dysgu llawer o'r dysgwyr. Mae rhyw 200 o Ganolfannau ledled y wlad, yn wahanol o ran model, gyda rhai'n eiddo i awdurdodau lleol, ac eraill yn breifat. Mae HABE'n cefnogi'r Canolfannau.

Lle y mae'r Gymraeg i'w chlywed yn anaml yn y gymuned, mae Canolfannau Cymraeg yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith yn wythnosol a hyd yn oed yn ddyddiol, a hefyd yn rhoi cyfle iddynt fod yn rhan o ddatblygu cymunedau Cymraeg newydd.

Gall Canolfannau Cymraeg gael eu sefydlu gan fentrau preifat, gan Awdurdodau Lleol neu gan gyrff a ariennir yn gyhoeddus. Rydym yn argymhell bod cynllun annog Canolfannau Cymraeg yn cael ei roi ar waith. Byddai hwn yn cynnig modelau gweithredu ac ariannu. O ran darpariaeth Cymraeg i Oedolion, byddai'n golygu bod cyrsiau'n cael eu canoli mewn Canolfan Gymraeg, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, a chyrrff sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys yr Urdd, Mentrau Iaith a Mudiad Meithrin.

## Adnoddau

Mae'r adnoddau sydd ar gael yn amrywiol iawn. Mae rhai'n anelu at ardaloedd penodol, mae rhai wedi'u teilwra ar gyfer dibenion penodol, e.e. y Gymraeg i rieni, a'r Gymraeg yn y gweithle, tra bod amrywiaeth hefyd yn bod o ran dull y dysgu.<sup>xv</sup>

Mae swm cynyddol o gyrsiau a deunyddiau ar gael ar y we ac ar ffurf deunydd hunan-ddysgu. Mae'r rhain yn ddefnyddiol i rai sy'n hoff o ddysgu ar eu pen eu hunain neu i rai nad oes modd iddynt gael cyswllt digonol â'r iaith.

Yn y cyd-destun hwn mae angen cofio bod amrywiaeth helaeth o ddulliau dysgu gan ddysgwyr, a'u blaenoriaeth o ran y sgiliau iaith yn wahanol.

Byddem yn croesawu cyrsiau newydd, yn rhai at ddefnydd dosbarth, rhai at ddysgu unigol, a deunyddiau electronig a fydd yn rhoi cyfoeth o ddeunydd amrywiol i wahanol fathau o ddysgwyr. Mae lle i ddatblygu cyrsiau ar-lein sy'n cydreddeg â dosbarthiadau. Cyn bod arian llywodraeth yn cael ei wario ar hyn, mae angen

- i. Sefydlu Sefydliad Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion a fydd yn arwain y maes ac yn gallu llywio gwaith o'r math gan ymchwilio i anghenion.

- ii. Gosod gwaith llunio cyrsiau ar dendr i awduron a gweisg fel bod modd sicrhau bod gwaith o'r safon uchaf yn cael ei gynhyrchu. Gall hyn olygu cael amrywiaeth da o gynhyrchwyr, yn hytrach na rhoi'r gwaith i un sefydliad a allai gynhyrchu gwaith llai na llwyddiannus.
- iii. Yn sgil yr angen i gynnig cyrsiau sy'n rhoi 1,200 o oriau cyswllt mae angen i adnoddau dysgu gael eu datblygu i ddiwallu'r angen amlwg hwn.

## Trefn newydd

Rydym yn argymhell bod y Llywodraeth yn cychwyn Sefydliad Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion i arwain y maes, gan osod nodau strategol, gosod blaenoriaethau a thargedau, ymgymryd â threfnu hyfforddiant ac adnoddau ac ariannu.

Mae arbenigedd wedi'i ddatblygu yn y Chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion, ac mae angen manteisio'n llawn ar brofiad addysgu'r staff sydd ynddynt. Nid yw'r profiad hwn ar gael gan sefydliadau eraill.

Mae angen mawr am ddatblygu addysgu Cymraeg i Oedolion yn broffesiwn i athrawon amser llawn.

## Argymhellion

Sefydliad Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion

1. Mae angen sefydlu Sefydliad Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion.
2. Mae angen i'r sefydliad gael ei reoli gan arbenigwyr ym maes Cymraeg i Oedolion.
3. Bydd y Sefydliad hwn yn cydlynu gwaith y Chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion.
4. Bydd y Sefydliad yn gyfrifol am arwain y maes o ran nodau strategol, blaenoriaethau, hyfforddiant, adnoddau ac ariannu.
5. Mae angen i'r maes gael ei broffesiynoleiddio, a chael corff helaeth o athrawon amser llawn.
6. Mae angen i'r rhaglen fod yn rhan o gynllunio ieithyddol cenedlaethol yn hytrach nag yn ddarpariaeth ar wahân.

Dwyster y Dysgu a Nifer Oriau

7. Mae angen i'r rhan fwyaf o'r dysgu ddigwydd mewn cyrsiau sy'n cynnig o leiaf 6 awr yr wythnos.
8. Mae angen cynnig cyrsiau dwys dros flwyddyn gan ryddhau dysgwyr o'u gwaith.
9. Mae angen i'r rhaglen ddysgu gynnig hyd at 1,200 o oriau i sicrhau rhuglder.

Adnoddau

10. Mae angen i Sefydliad Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion arwain ar greu adnoddau.
11. Mae angen llunio adnoddau ar gyfer cyrsiau 1,200 o oriau.

12. Mae angen i adnoddau ar-lein atgyfnerthu'r dysgu ar lawr gwlad.

#### Canolfannau Cymraeg

13. Mae angen hyrwyddo rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg a fydd yn rhoi cyd-destun cymunedol i'r dysgu.

14. Mae lle amlwg i Gymraeg i Oedolion mewn Ganolfannau Cymraeg, ar y cyd â sefydliadau Cymraeg eraill.

#### Targeddu Dysgwyr

15. Mae angen sicrhau bod yr addysgu wedi'i anelu at grwpiau yr ystyrir eu bod yn bwysig o ran creu cymunedau newydd i'r Gymraeg. Dylai'r rhain gynnwys:

- i. Rhieni plant sy'n derbyn addysg Gymraeg
- ii. Arweinyddion cylchoedd meithrin
- iii. Gweithwyr cyhoeddus a rhai mewn cwmnïau preifat sy'n wynebu'r cyhoedd
- iv. Gweithwyr sydd wedi'u blaenoriaethu yng Nghynlluniau Iaith cyrff cyhoeddus
- v. Newydd-ddyfodiaid mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg.

#### Ariannu

16. Mae angen dyblu'r gwariant ar Gymraeg i Oedolion er mwyn darparu gwasanaeth llwyddiannus.

17. Dylai'r ariannu hyrwyddo Canolfannau Cymraeg.

18. Dylai'r ariannu ganiatáu rhyddhau darpar rieni a gweithwyr o'r gwaith am gyfnodau helaeth i ddysgu'r iaith.

#### Achredu

19. Mae angen osgoi llawer o'r achredu i rai sy'n dysgu am resymau cymathu.

20. Mae angen diogelu cyfundrefn arholiadau Cymraeg i Oedolion ar gyfer rhai sydd am gael cymhwyster ar gyfer gwaith.

21. Mae angen i asesu dysgwyr nad ydynt am gael gymhwyster o'r fath fod yn ffurfiannol yn hytrach na chrynodol.

## Cyfeiriadau

<sup>i</sup> SCYA (2003) *Gwerthuso Rhaglen Genedlaethol Cymraeg i Oedolion*. Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil mewn Addysg, Abertawe.

<sup>ii</sup> Morris, S.D. (2005) *Cymhellion a Llwyddiant Oedolion sy'n dysgu Cymraeg: Astudiaeth o gyrsiau dwys yn ninas Abertawe*. Traethawd MPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe.

Hefyd, Reynolds, C. (2004) *Dysgwyr Cymraeg i Oedolion: Cymhelliant ac Agwedd*. Traethawd MPhil heb ei gyhoeddi, Prifysgol Abertawe.

<sup>iii</sup> Fishman, J.A. (1991) *Reversing Language Shift*. Clevedon: Multilingual Matters.

<sup>iv</sup> Jarl, Louise (2012) *State-funded language course programs in Denmark - looking at newcomers from EU member states*, Ministry of Social Affairs and Integration.

<sup>v</sup> Gardner, N. (2005) *The Basque Language in Education in Spain*. Leeuwarden/Ljouwert: Mercator Education.

<sup>vi</sup> Estyn (2004) *Ansawdd y Ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg i Oedolion*. Estyn, Caerdydd: Arolygiaeth ei mawrhydi dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Hefyd, SCYA (2003) *Gwerthuso Rhaglen Genedlaethol Cymraeg i Oedolion*. Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil mewn Addysg, Abertawe.

<sup>vii</sup> Cymerwyd o Gruffudd, H. a Morris, S., (2012) *Canolfannau Cymraeg a Rhwydweithiau Cymdeithasol Oedolion sy'n Dysgu'r Gymraeg*, Prifysgol Abertawe, t. 16.

<sup>viii</sup> Idem, t. 17.

<sup>ix</sup> Eustat (2010) Ystadegau Llywodraeth Cymuned Ymreolus y Basgiaid. Ar gael ar: <http://www.eustat.es/bancopx/Dialog/Saveshow.asp> [Cyrchwyd 3 Awst 2010].

<sup>x</sup> Gw. [www.cambridgeesol.org/exams/exams-info/cefr.html](http://www.cambridgeesol.org/exams/exams-info/cefr.html) am fwy o wybodaeth.

<sup>xi</sup> CBAC (2004) *Bwletin Arholiadau Cymraeg i Oedolion*. Rhifyn 2: Rhagfyr 2004, Caerdydd.

<sup>xii</sup> Gwybodaeth am ariannu Basgeg i Oedolion, Presupuestos y subvenciones. Ar gael ar: [http://www.habe.euskadi.net/s23-4728/es/contenidos/informacion/aurrekontuak/es\\_9680/aurrekontuak.html](http://www.habe.euskadi.net/s23-4728/es/contenidos/informacion/aurrekontuak/es_9680/aurrekontuak.html) [Cyrchwyd 17 Rhagfyr 2010].

<sup>xiii</sup> Adroddiad BIS Department for Business Innovation and Skills, *English for Speakers of Other Languages (ESOL) Equality Impact Assessment*, Gorffennaf 2011.

<sup>xiv</sup> Gruffudd, H. a Morris, S., (2012) *Canolfannau Cymraeg a Rhwydweithiau Cymdeithasol Oedolion sy'n Dysgu'r Gymraeg*, Prifysgol Abertawe.

<sup>xv</sup> Gw. D. Mac Giolla Chríost et al., *Welsh for adults teaching and learning approaches, methodologies and resources: a comprehensive research study and critical review of the way forward*, Prifysgol Caerdydd, 2012.